



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

<b><u>Aelodau:</u></b>	Mr Christopher Salmon, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau (CHTh) Prif Gwnstabl Simon Prince (PG) Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol (PSA) Ms Samantha Gainard, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Chydymffurfio (CGC) Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA)
<b><u>Hefyd yn Bresennol:</u></b>	Dr Helen Morgan-Howard, Pennaeth Staff, SCHTh (HM-H) Mrs Claire Bryant, Rheolwr Swyddfa, SCHTh (CB) Mrs Sharon Richards, Rheolwr Perfformiad, SCHTh (SR) Mrs Alison Perry, Cyfarwyddwr Comisiynu, SCHTh (ALP) Arolygydd Mark McSweeney, Swyddog Staff i'r Prif Gwnstabl (MMS)
<b><u>Ymddiheuriadau:</u></b>	Mr Tim Burton, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau (DGHTh) Dirprwy Brif Gwnstabl, Carl Langley (DBG) Prif Gwnstabl Cynorthwyol Liane James (PGC) Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)

CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 17/09/2015		
Rhif Cam Gweithredu	Crynodeb	Cynnydd:
<b>PAB 253</b>	<b>Yr Heddlu i egluro pa un ai a yw data IOM yn cynnwys aelodau sydd yn y carchar ar hyn o bryd</b>	<b>Cwblhawyd</b>
<b>PAB 254</b>	<b>Cyflwyno costau'r cynllun IOM (gan gynnwys eiddo, dadansoddydd a chost i asiantaethau eraill) yng nghyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu fis Hydref</b>	<b>Cwblhawyd</b>
<b>PAB 255</b>	<b>Adrodd am ddata sy'n ymwneud ag unigolion sy'n gadael y cynllun IOM yng nghyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu ym mis Hydref, gan gynnwys cyfraddau aildroseddu a chyflogaeth ar 6, 12 a 24 mis.</b>	<b>Cwblhawyd</b>
<b>PAB 256</b>	<b>Rhoi cyflwyniad mewn perthynas â throseddau ar-lein yng nghyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu fis Tachwedd</b>	<b>Ar waith</b>
<b>PAB 257</b>	<b>SCHTh i adolygu'r ddewislen datrysiadau cymunedol mewn perthynas â gwasanaethau wedi'u comisiynu</b>	<b>Ar waith</b>

<b>PAB 258</b>	<b>Cyflwyno diweddariad MASH yng nghyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu ym mis Hydref</b>	<b>Cwblhawyd</b>
<b>PAB 259</b>	<b>Adnewyddu Priso sy'n Seiliedig ar Weithgarwch</b>	<b>Cwblhawyd</b>
<b>PAB 260</b>	<b>Yr Heddlu i ystyried pa ddata fewn yr adroddiad Action Fraud diweddaraf y gellir ei rannu â'r cyhoedd ac ymchwilio i'r posibilrwydd ar gyfer gwasanaeth gwybodaeth am dwyll lleol</b>	<b>Cwblhawyd</b>
<b>PAB 261</b>	<b>Yr Heddlu i gynnal dadansoddiad o lefelau ymchwilio AGH erbyn diwedd Hydref</b>	<b>Ar waith</b>
<b>PAB 262</b>	<b>Cyflwyno proffil o achosion secstio yng nghyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu ym mis Hydref</b>	<b>Cwblhawyd</b>
<b>PAB 263</b>	<b>Cyflwyno adolygiad llawn o'r broses Hysbysiad Gwybodaeth yr Heddlu yng nghyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu ym mis Tachwedd</b>	<b>Ar waith</b>
<b>PAB 264</b>	<b>Y Rheolwr Ariannu Allanol i drafod cynigion Arloesedd â'r PG cyn cyflwyno Mynegiannau o Ddiddordeb ar 18 Medi</b>	<b>Cwblhawyd</b>
<b>PAB 265</b>	<b>Prif Swyddogion i gyflwyno neges y dylid trafod syniadau a chynigion ariannu â'r Rheolwr Ariannu Allanol cyn eu cyflwyno</b>	<b>Cwblhawyd</b>
<b>PAB 266</b>	<b>Rhannu manylion pellach mewn perthynas ag ymchwil Prifysgol Cymru â SCHTh</b>	<b>Ar waith</b>
<b>PAB 267</b>	<b>Rhannu gwybodaeth bellach mewn perthynas â staffio'r Uned Gefnogaeth Arfog â'r PSA</b>	<b>Cwblhawyd</b>

### **Cofnodion y Bwrdd Atebolrwydd a gynhaliwyd ar 17 Medi 2015 a Materion yn Codi**

Gofynnodd y CHTh bod data Llywodraeth Cymru mewn perthynas â digwyddiadau traffig y ffyrdd yn cael ei ystyried ymhellach, gan gynnwys gwybodaeth ar hyd teithiau.

#### **Cam Gweithredu: SR i ystyried data Llywodraeth Cymru mewn perthynas â digwyddiadau traffig y ffyrdd ymhellach, ymhellach, gan gynnwys gwybodaeth ar hyd teithiau**

PAB 253 a 254 – Cadarnhaodd y PG bod y data'n cynnwys y rhai sydd yn y carchar ar hyn o bryd. Cyfanswm costau'r cynllun Rheoli Troseddwy yn Integredig oedd £776,000. Byddai crynodeb llawn yn cael ei anfon at y CHTh ar ôl y cyfarfod.

PAB 255 - Roedd 191 aelod wedi gadael y cynlluniau Rheoli Troseddwy yn Integredig ers 2013. Dywedodd y PG ei bod hi'n anodd olrhain yr unigolion heb chwilio amdanynt yn unigol ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu. Daeth i'r amlwg nad oedd data cyflogaeth yn cael ei ddal gan HDP, ond yn hytrach, Canolfan Byd Gwaith. Nid oes cytundeb rhannau gwybodaeth mewn grym gyda Chanolfan Byd Gwaith ar hyn o bryd. Dywedodd y

PG bod y cysylltiad ffurfiol ag aelodau'n gorffen pan maen nhw'n gadael y cynllun Rheoli Troseddwyr yn Integredig, fodd bynnag, nododd SR y gall rhai ymgysylltu'n wirfoddol ag asiantaethau partner megis rhaglenni camddefnyddio sylweddau. Dywedodd y PG y gellir gwneud hyn, fodd bynnag, daeth i'r amlwg bod data'n cael ei gasglu mewn perthynas ag unigolion sy'n dychwelyd i'r cynllun. Gofynnodd y CHTh am ddata ynghylch hyn.

**Cam Gweithredu: Darparu data mewn perthynas ag unigolion sy'n ymuno â'r cynllun Rheoli Troseddwyr yn Integredig ar ôl 6, 12 a 24 mis ym Mwrdd Atebolrwydd yr Heddlu ym mis Mawrth.**

**Cam Gweithredu: SCHTh i ystyried opsiynau ar gyfer arolygon gadael ar gyfer graddedigion y cynllun Rheoli Troseddwyr yn Integredig, gan gynnwys rhagolygon am gyflogaeth**

PAB 257 – Byddai ALP yn cwrdd â'r Prif Arolygydd Templeton wythnos nesaf er mwyn trafod y mater.

PAB 258 – byddai'r PG yn darparu diweddariad llafar, gan ddweud bod dod o hyd i leoliad addas dal yn broblem yn Sir Gaerfyrddin. Adleisiodd y PG rwystredigaeth y CHTh ynglŷn â'r mater. Cytunwyd y byddai'r PG a'r CHTh yn codi'r mater â Phrif Weithredwr ac Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin.

**Cam Gweithredu: PG a'r CHTh i godi materion Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth â Phrif Weithredwr ac Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin**

PAB 260 – roedd y PG yn teimlo ei bod hi'n briodol bod Action Fraud yn cyhoeddi ei ddata ei hun a bod HDP yn cyhoeddi gwybodaeth sy'n ymwneud â'i ardal ei hun. Gofynnodd y CHTh am eglurder ynghylch pa adroddiadau twyll sy'n cael eu dal gan HDP. Cadarnhaodd y PG bod pob achos twyll a adroddwyd i Action Fraud yn cael eu cynnwys ar Qlikview.

PAB 266 - Ceisiodd MMS eglurder ar y weithred. Gofynnodd SR os oedd yr ymchwil yn ymwneud â throseddau rhyw. Dywedodd MMS y byddai'n trafod â phobl berthnasol o fewn yr Heddlu a darparu ymateb.

**Adroddiad Atebolrwydd yr Heddlu ar Flaenoriaeth 3 – Dwyn Pobl i Gyfiawnder**

Cyflwynodd y PG yr adroddiad, gan dynnu sylw at y prif bwyntiau. Dywedodd y PG bod HDP yn rhoi mwy o achosion i'r llys yn gymesur nag unrhyw Heddlu arall, gan gynyddu'r tebygolrwydd o ganlyniadau gwrthwynebus. Holodd SR pa un ai a oedd archwiliadau yn dilyn achosion yn cael eu cynnal er mwyn ystyried y canlyniadau a chymariaethau ag ardaloedd eraill. Dywedodd y PG nad oedd hyn yn cael ei wneud, fodd bynnag, awgrymodd y byddai cymhariaeth â chyfraddau datrys fwy na thebyg yn atgyfnerthu pam fod mwy o achosion yn cael eu cymryd i'r llys gan HDP. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â materion amserlen a brofir mewn llysoedd, sydd ddim yn ffafriol ar gyfer profiad dioddefwyr. Ymddengys nad oedd gan HDP lawer o ddylanwad o ran mynd i'r

afael â'r mater. Codwyd yr effaith negyddol bosibl ar ddiodefswyr drwy gau llysoedd gan y PG a'r CGC â'r Uwch-farnwr Llywyddol, yn arbennig achosion cam-drin domestig. Holodd ALP pa un ai a oedd cyfraddau euogfarnu'n well pan mae achosion yn cael eu cynnal mewn llysoedd trais domestig arbenigol. Nid oedd hyn yn hysbys, ond roedd y mater wedi'i drafod â'r Uwch-farnwr Llywyddol.

Holodd y CHTH pa un ai a oedd y targedau mewn perthynas â gwarantau'n genedlaethol neu'n lleol. Eglurodd y PG mai targedau cenedlaethol oedd y rhain a sefydlwyd nifer o flynyddoedd yn ôl, ac a oedd dal yn cael eu defnyddio fel meincnod. Gofynnodd y CHTH am eglurder ynghylch categorïau gwarant.

### **Cam Gweithredu: Yr Heddlu i egluro'r categorïau gwarant gwahanol**

Dywedodd y PG y disgwylir dadansoddiad o Wasanaeth Erlyn y Goron ar achosion nad ydynt yn cael eu symud ymlaen o dan Trawsnewid Cyfiawnder Diannod a byddai'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn ystyried hyn ymhen amser. Disgwylir y bydd y system prawf 'Track My Crime' yn fyw cyn hir. Dywedodd y PG bod yr adroddiad wedi dweud y bu problemau technegol sylweddol sydd dal heb eu datrys mewn perthynas â data symudol, fodd bynnag, roedd y broblem meddalwedd bellach wedi'i datrys gan Kelvin Connect.

Codwyd pryder ynghylch yr amser a ganiateir i unigolion ymgymryd â chyrtsiau addysg cyn mynd ymlaen i lys. Eglurodd y PG a'r CGC bod y mater hwn wedi'i drin trwy welliannau proses ar gyfer cyhoeddi llythyrau'n gynt. Bwriadwyd y byddai llythyrau'n cynnig cyrsiau addysgu ynghylch moduro'n cael eu cyhoeddi o fewn 4 mis erbyn mis Ionawr. Ceisiodd y CHTH sicrwydd bod y costau a bennir yn cynnwys costau gweinyddol a godir. Dywedodd y PG bod costau wedi'u gosod ar lefel benodol er mwyn cynnwys y costau sy'n gysylltiedig ag ymgymryd â'r broses.

### **Cam Gweithredu: Yr Heddlu i gadarnhau costau Erlyniadau a Arweinir gan yr Heddlu erbyn diwedd Tachwedd**

### **Cam Gweithredu: Ailystyried data ynghylch llythyrau sy'n cynnig cyrsiau addysgu ynghylch moduro yng Nghyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu ym mis Ionawr**

Darparodd y PG eglurder o ran y ddeddfwriaeth ynghylch ceir di-fwg. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â chasglu data am rybuddion a gyhoeddwyd. Cytunwyd y byddai data ar gael pan fydd hysbysiadau cosb benodedig yn cael eu cyhoeddi, ond ni fyddai rhybuddion yn cael eu cofnodi.

Roedd y peilot 'Gwneud Addewid Ar-lein' yn parhau, gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn disgwyl lansiad byw ym mis Ionawr 2016.

Gofynnodd y CHTH am ragor o wybodaeth mewn perthynas â chwrs RIDE arfaethedig yn y dyfodol ar gyfer beicwyr modur. Sicrhaodd y PG y byddai cynnig llawn yn cael ei gyflwyno i'r CHTH maes o law.

Gofynnodd ALP am eglurder ynghylch cyngor cyn cyhuddo ar achosion. Esboniodd y PG y byddai cyngor gan GEG yn cael ei ddarparu trwy'r porthol digidol yn hytrach na dros y ffôn.

Holodd SR pa un ai a oedd adborth cychwynol ar y peilot rheoli mechnïaeth ac ystyriaeth o'r effaith ar adnoddau'r Heddlu wedi'i dderbyn. Dywedodd y PG nad oedd unrhyw beth wedi dod i law hyd yn hyn, ac ar hyn o bryd, nid oedd effeithiau andwyol wedi'u nodi.

### **Adroddiad Atebolrwydd SCHTh ar Flaenoriaeth 3**

Cyflwynodd SR yr adran sy'n ymwneud â'r Panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys. Roedd nifer yr achosion sy'n cael eu hystyried yn amhriodol wedi gostwng dros amser. Roedd y panel wedi tynnu sylw at bwyntiau dysgu, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth o faterion gyda swyddogion, gorfodi newidiadau deddfwriaethol a gwella cyfathrebu rhwng asiantaethau. Dywedodd SR bod y pwyntiau hyn yn cael eu bwydo yn ôl trwy fforymau a hyfforddiant. Dywedodd y CGC y byddai'n fuddiol bwydo'r gweithredoedd i'r Pwyllgor Dysgu'r Gwersi. Diolchodd y PG a'r CHTh y tîm am eu gwaith tuag at welliannau cadarnhaol o ran gwarediadau y tu allan i'r llys gan ei fod yn dangos bod HDP wedi ymateb i bryderon cyhoeddus. Nododd SR bod amheuan fel arfer yn cael eu mynegi o gwmpas y broses na'r rhybudd ei hun.

### **Cam Gweithredu: SR i anfon camau gweithredu o'r Panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys at y CGC ar gyfer eu rhannu yn y Pwyllgor Dysgu'r Gwersi**

Cyflwynodd ALP weddill yr adroddiad. Roedd y materion technegol y tynnwyd sylw atynt o gwmpas Cysylltiadau Byw yn fater cenedlaethol. Byddai Cysylltiadau Byw yn cael eu trafod yn y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol ar 20 Hydref. Roedd yr Adran Cyfiawnder Troseddol yn y broses o ystyried cynigion lleoliad i hysbysu achos busnes i'w gyflwyno i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol ymhen amser.

Adroddwyd bod yr hwb dioddefwyr yn gweithio'n dda. Roedd cynnwys cymorth ar gyfer dioddefwyr Twyll yn cael ei ystyried. Cafwyd trafodaeth ynghylch cynnwys Cyngor Ar Bopeth yn y tîm Gofal Tystion. Anogodd y CHTh bod rolau'r 3 pwynt cyswllt, sef Cymorth i Ddioddefwyr, Gofal Tystion a'r Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus, yn cael eu symleiddio a'u hegluro. Daeth i'r amlwg bod rhai anawsterau mewn perthynas â mynediad TG at systemau a rennir er mwyn caniatáu rhannu data wedi'u profi. Mynegodd y CHTh ei rwystredigaeth ynglŷn â'r mater ac anogodd ei fod yn cael ei ddatrys ar frys. Nododd y PG y dylai materion fel hyn gael eu dwyn i sylw'r PG pan fyddant yn digwydd.

### **Cam Gweithredu: SCHTh i nodi materion mynediad TG mewn perthynas â'r hwb dioddefwyr a'r Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus mor fuan â phosibl**

### **Cam Gweithredu: PG i union mynediad i systemau'r Heddlu ar gyfer yr Hwb Dioddefwyr a'r Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus fel mater o frys**

Dywedodd y CA bod angen sicrhau bod yr hyfforddiant Cyfiawnder Adferol yn cyd-fynd â rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr yr Heddlu. Dywedodd ALP bod cynllunio'n digwydd â'r cynrychiolwyr perthnasol o'r Heddlu. Cafwyd trafodaeth ynghylch ymwybyddiaeth dioddefwyr o ddewisiadau cyfiawnder adferol. Roedd y cyfleuster yn cael ei hyrwyddo gan swyddogion, y Cwtsh Cymorth, Gofal Tystion a chyhoeddusrwydd mewn llysoedd. Darperir data manwl ynghylch cyfiawnder adferol bob chwarter ac yn y Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu blaenoriaeth 3 nesaf.

### **Cam Gweithredu: Ystyried Cyfiawnder Adferol yng nghyfarfod blaenoriaeth 3 nesaf Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu (Ebrill 2016)**

Mynegodd ALP ei diolch i'r PGC am y gwaith o ran y prosiect mapio proses. Byddai'r cylch gorchwyl, amlinelliad o'r prosiect a'r costau cychwynnol yn cael eu trafod yn y cyfarfod Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol sydd ar fin cael ei gynna;. Dywedodd y CHTh y byddai'r prosiect yn cael ei ariannu a'i oruchwylio gan y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol.

### **Adroddiad Monitro Perfformiad SCHTh**

Cyflwynodd SR yr adroddiad i'r Bwrdd, gan dynnu sylw at y newid o ran ymagwedd lle yr oedd tri maes penodol wedi derbyn sylw'r mis hwn; twyll, arfau saethu a phroffiliau gwerth am arian a chostau staff. Roedd SCHTh wedi paratoi cwestiynau cyn y cyfarfod, a oedd wedi'u dosbarthu i'r heddlu. Yn y cyfarfod, atebodd yr heddlu'r cwestiynau hynny a byddai'r Adroddiad Perfformiad yn cael ei ddiweddarau ag ymatebion yr heddlu.

Rhannodd yr heddlu ddiagram llif a oedd yn manylu sut yr ymdrinnir ag adroddiadau am dwyll. Cafwyd trafodaeth ynghylch ymwybyddiaeth y cyhoedd o sut i adrodd am dwyll. Ystyriodd y CHTh y byddai'n ddoeth cynnwys asesiad o ddealltwriaeth y cyhoedd ynghylch sut i adrodd am dwyll yn yr arolwg troseddau busnes a fydd yn cael ei gynnal cyn hir gan SCHTh. Dywedodd y PG bod HDP yn ymchwilio i bob achos twyll sy'n cael ei adrodd i HDP. Gofynnodd y CHTh pa un ai a oedd hawl dioddefydd i adolygiad yn berthnasol ar gyfer achosion twyll. Dywedodd y PG ei fod e, yn yr un modd ag achosion nad ydynt yn ymwneud â thwyll. Ychydig iawn o achosion oedd yn arwain at adolygiadau.

### **Cam Gweithredu: SCHTh i gynnwys asesiad o ddealltwriaeth y cyhoedd ynghylch sut i adrodd am dwyll a phrofiadau o gael eu diweddarau ynghylch cynnydd achosion twyll yn yr arolwg troseddau busnes y mae SCHTh ar fin ei gynnal**

Gofynnodd y CHh pa un ai a fu unrhyw ddatblygiadau o ran cydweithio ar brosesu trwyddedau arfau saethu. Adroddodd y PG na fu unrhyw ddatblygiadau pellach. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â phrosesu trwyddedu arfau saethu. Esboniodd y CGC y sefyllfa gyfredol, gan ddweud bod trwyddedau dros dro'n cael eu cyhoeddi pan oedd oedi o ran achosion. Byddai cymorthfeydd trwyddedu arfau saethu yn cael eu cynnal yn y

flwyddyn newydd er mwyn ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd mewn perthynas ag ymholiadau ynglŷn â'u ceisiadau.

**Cam gweithredu: Darparu data ynghylch nifer y trwyddedau arfau saethu dros dro a gyhoeddwyd mewn cyfarfod o Fwrdd Atebolrwydd yr Heddlu yn y dyfodol**

**Cam Gweithredu: CGC i roi dyddiadau cymorthfeydd arfau saethu i'r CHTh erbyn mis Rhagfyr**

Cafwyd trafodaeth ynghylch costau gweithwyr. Gofynnodd y CHTh pa mor bell ymlaen yr oedd cynlluniau recriwtio'n cael eu darogan. Dywedodd y CA bod cynllun mynegol tair blynedd yn cael ei ddatblygu, gyda manylion ychwanegol ar gyfer y flwyddyn gyntaf. Dywedodd y PG mai mesur brys yr oedd yn ceisio'i osgoi oedd rhewi recriwtio. Gofynnodd y CHTh am ddiweddariadau chwarterol o niferoedd staff a swyddogion ar ffurf graff.

**Cam Gweithredu: Darparu graffiau mewn perthynas â niferoedd swyddogion a staff ar sail chwarterol**

**Cwestiynau o Gofnodion y Grŵp Prif Swyddogion**

Ceisiodd HM-H sicrwydd bod swyddi gwag yn cael eu hysbysebu'n allanol yn ôl yr hyn a gytunwyd yn y Bwrdd Plismona. Dywedodd y PG bod dyfodol unrhyw swyddi gwag sydd ar fin codi'n cael eu hystyried cyn cael eu hysbysebu. Roedd y PG yn disgwyl diweddariad gan y Coleg Plismona mewn perthynas â hysbysebion swyddogion cyn gorfodi hysbysebu allanol. Dywedodd y CHTh mai'r disgwyliad oedd y byddai pob swydd yn cael ei hysbysebu'n allanol yn unol â'r hyn a gytunwyd yn flaenorol. Awgrymodd y PG y dylid ailystyried y mater er mwyn caniatáu ar gyfer cydymffurfiaeth gyfreithiol mewn perthynas â chyfleoedd adleoli yn y dyfodol. Eglurwyd nad oedd yr Heddlu mewn sefyllfa adleoli ar hyn o bryd.

Ceisiodd y CHTh sicrwydd na fyddai'r estyniad diweddar o'r cytundeb Gwasanaethau Meddygol Fforensig yn cael ei estyn ymhellach. Daeth i'r amlwg bod yr estyniad ar gyfer caniatáu trafodaethau â Byrddau Iechyd Lleol. Cytunodd y PG i rannu'r cynllun amserlen â'r CHTh.

**Cam Gweithredu: PG i rannu'r cynllun amserlen ar gyfer y cytundeb Gwasanaeth Meddygol Fforensig â'r CHTh erbyn diwedd Tachwedd**

Gofynnodd SR am gael y wybodaeth ddiweddaraf am y dadansoddiad data perfformiad sy'n cael ei gyflawni gan yr Heddlu.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i SR am y dadansoddiad data perfformiad sy'n cael ei gyflawni**



Roedd y CHTH yn hapus â chysylltiad swyddogion HDP mewn tимоedd chwaraeon heddlu a chymeradwyodd cynnig y PG i annog mwy o gysylltiad.

## Unrhyw Fusnes Arall

Nododd y CHTH mai'r bwriad oedd cynnal Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu mewn man cyhoeddus a'i ddarlledu ar-lein ym mis Tachwedd, yn amodol ar orffen trefniadau.

CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 15/10/2015		
Rhif Cam Gweithredu	Crynodeb	I'w symud yn ei flaen gan:
<b>PAB 268</b>	<b>SR i ystyried data Llywodraeth Cymru mewn perthynas â digwyddiadau traffig y ffyrdd ymhellach, ymhellach, gan gynnwys gwybodaeth ar hyd teithiau</b>	<b>SR</b>
<b>PAB 269</b>	<b>Darparu data mewn perthynas ag unigolion sy'n ymuno â'r cynllun Rheoli Troseddwy'r yn Integredig ar ôl 6, 12 a 24 mis ym Mwrdd Atebolrwydd yr Heddlu ym mis Mawrth.</b>	<b>PG</b>
<b>PAB 270</b>	<b>SCHTh i ystyried opsiynau ar gyfer arolygon gadael ar gyfer graddedigion y cynllun Rheoli Troseddwy'r yn Integredig, gan gynnwys rhagolygon am gyflogaeth</b>	<b>SCHTh</b>
<b>PAB 271</b>	<b>PG a'r CHTH i godi materion Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth â Phrif Weithredwr ac Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin</b>	<b>PG / CHTH</b>
<b>PAB 272</b>	<b>Yr Heddlu i egluro'r categorïau gwarant gwahanol</b>	<b>MMS</b>
<b>PAB 273</b>	<b>Yr Heddlu i gadarnhau costau Erlyniadau a Arweinir gan yr Heddlu erbyn diwedd Tachwedd</b>	<b>CGC</b>
<b>PAB 274</b>	<b>Ailystyried data ynghylch llythyrau sy'n cynnig cyrsiau addysgu ynghylch moduro yng Nghyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu ym mis Ionawr</b>	<b>CA</b>
<b>PAB 275</b>	<b>SR i anfon camau gweithredu o'r Panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys at y CGC ar gyfer eu rhannu yn y Pwyllgor Dysgu'r Gwersi</b>	<b>SR</b>
<b>PAB 276</b>	<b>SCHTh i nodi materion mynediad TG mewn perthynas â'r hwb dioddefwyr a'r Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus mor fuan â phosibl</b>	<b>HM-H / ALP</b>
<b>PAB 277</b>	<b>PG i union mynediad i systemau'r Heddlu ar gyfer yr Hwb Dioddefwyr a'r Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus fel mater o frys</b>	<b>PG</b>

<b>PAB 278</b>	<b>Ystyried Cyfiawnder Adferol yng nghyfarfod blaenoriaeth 3 nesaf Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu (Ebrill 2016)</b>	<b>ALP</b>
<b>PAB 279</b>	<b>SCHTh i gynnwys asesiad o ddealltwriaeth y cyhoedd ynghylch sut i adrodd am dwyll a phrofiadau o gael eu diweddarau ynghylch cynnydd achosion twyll yn yr arolwg troseddau busnes y mae SCHTh ar fin ei gynnal</b>	<b>SR</b>
<b>PAB 280</b>	<b>Darparu data ynghylch nifer y trwyddedau arfau saethu dros dro a gyhoeddwyd mewn cyfarfod o Fwrdd Atebolrwydd yr Heddlu yn y dyfodol</b>	<b>CGC</b>
<b>PAB 281</b>	<b>CGC i roi dyddiadau cymorthfeydd arfau saethu i'r CHTh erbyn mis Rhagfyr</b>	<b>CGC</b>
<b>PAB 282</b>	<b>Darparu graffiau mewn perthynas â niferoedd swyddogion a staff ar sail chwarterol</b>	<b>CA</b>
<b>PAB 283</b>	<b>PG i rannu'r cynllun amserlen ar gyfer y cytundeb Gwasanaeth Meddygol Fforensig â'r CHTh erbyn diwedd Tachwedd</b>	<b>PG</b>
<b>PAB 284</b>	<b>Gweithredu: Yr Heddlu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i SR am y dadansoddiad data perfformiad sy'n cael ei gyflawni</b>	<b>Yr Heddlu</b>